Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# AGENDA

## *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***2.00 PM - DYDD MAWRTH, 19 MAWRTH 2019***

****SIAMBR Y CYNGOR – CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT***

****Sylwer ar y lleoliad***

**Rhan 1**

1. Datganiadau o gysylltiadau

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 10)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle o'r ceisiadau a gyflwynwyd.

**Adroddiadau gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio yr argymhellir eu cymeradwyo**

4. Cais Rhif. P2018/0493 - Cyrchfan Antur Cwm Afan
*(Tudalennau 11 - 134)*
Cais cynllunio amlinellol (gan gynnwys mynediad) ar gyfer cyrchfan antur arfaethedig sy'n cynnwys 600 o gabanau/fflatiau, gwesty â 100 o ystafelloedd gwely a sba, sgwâr canolog sy'n cynnwys bwytai, gweithgareddau hamdden a siopau, gweithgareddau antur ac adeiladau cysylltiedig (gan gynnwys chwaraeon eithafol, gweithgareddau alpaidd/sgïo a choedwig a Trax & Trails), bwytai ac adeiladau gweinyddol a chynnal a chadw cysylltiedig, a lle parcio i oddeutu 850 o geir, yn ogystal â gweithredoedd tirlunio, draenio a pheirianneg gan gynnwys ailbroffilio tir, trin ffiniau, cadw adeileddau, goleuadau allanol a chamerâu cylch cyfyng, a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus. Gwybodaeth ychwanegol a diwygiedig a dderbyniwyd ar 25/01/2019 a 07/02/2019 o dan

Reoliad 24 mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirwedd ac effaith weledol, effaith gymdeithasol economaidd a thrafnidiaeth ynghyd â newidiadau i'r uwchgynllun a'r cynllun ffiniau ar dir ym Mhen y Bryn, Croeserw, Cymer, Port Talbot.

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

5. Apeliadau a Bennwyd - 19 Chwefror i 11 Mawrth 2019
*(Tudalennau 135 - 136)*

6. Apeliadau a Dderbyniwyd - 19 Chwefror i 11 Mawrth 2019
*(Tudalennau 137 - 138)*

7. Penderfyniadau Dirprwyedig - 19 Chwefror i 11 Mawrth 2019
*(Tudalennau 139 - 150)*

8. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 13 Mawrth 2019**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **H.N.James**

**Aelodau:** Councillors A.R.Aubrey, S.Bamsey, R.Davies, W.F.Griffiths, S.K.Hunt, C.J.Jones, S.Pursey, R.Mizen a/ac L.Jones

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning.

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**<u>Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor</u>**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn <u>2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf</u> (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.